YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

# Tymor y Gwanwyn 2022 – Dosbarth Bl 2

## Cymru Gwlad y Gân

Gall pawb fod yn gerddor!

*Bwriad yr uned ddysgu hon yw i ddarparu cyfleoedd, cyd-destunau a phrofiadau a fydd yn annog dysgwyr i fod yn chwilfrydig, yn greadigol a mentrus ac yn barod i chwarae eu rhan fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Anelwn hefyd at ddatblygu dysgwyr a dinasyddion gwybodus sy'n ymhyfrydu yn eu diwylliant a'u hunaniaeth.*

### Y Dyniaethau

- Sut y caiff cerddoriaeth ei ddefnyddio i ddathlu achlysuron pwysig
- Dysgu am bwysigrwydd cerddoriaeth, dawnsiau, caneuon a barddoniaeth Gymreig a'r Eisteddfod.

### Celfyddydau Mynegiannol

- Archwilio ystod o offerynnau cerddorol.
- Dysgu sut i ddefnyddio offerynnau taro.
- Mwynhau canu ystod o ganeuon amrywiol.
- Ymateb i gerddoriaeth – dysgu am elfennau cerddorol syml.
- Dysgu am gerddorion enwog o Gymru.
- Mwynhau cynllunio, ymarfer a pherfformio i gynulleidfa.
- Gwerthuso ein perfformiadau a myfyrio.

### Iechyd a Lles

- Archwilio ein teimladau trwy wrando ac ymateb i gerddoriaeth
- Datblygu ein ffitrwydd trwy ddawnsio
- Deall y gall cerddoriaeth gael effaith ar ein lles meddyliol
- Datblygu ein hyder trwy berfformio i eraill
- Deall sut i gadw'n ddiogel ar-lein

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Sut mae sain yn cael ei greu a sut y mae'n dod o ystod o ffynonellau
- Archwilio'n syml sut y mae sain yn teithio
- Creu offeryn gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau
- Trafod nodweddion deunyddiau wrth ddidoli a dosbarthu offerynnau
- Cyfathrebu ein syniadau trwy gyfrwng amrywiol ddulliau digidol, gan gynnwys cyfansoddi cerddoriaeth.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Creu cornel chwarae 'Y Stiwdio Gerdd' a mwynhau cyfansoddi, arbrofi a gwrando ar gerddoriaeth
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon
- Dal ati ddatblygu ein sgiliau darllen
- Dysgu am gyflythreniad ac odl
- Ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau, gan gynnwys barddoniaeth sy'n defnyddio odl
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau'n gywir.

Bydd y gwaith cartref yn cael ei rannu trwy gyfrif Hwb eich plentyn. Gweler y cyfarwyddiadau ar dudalen y dosbarth ar wefan yr ysgol. Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener.
Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Bl.2)

### Mathemateg a Rhifedd

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau
- Ymarfer a gwella ein sgiliau adio, tynnu, rhannu a lluosi.
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur pwysau a pharhau i ddysgu darllen y cloc
- Chwarae gemau mathemateg pen
- Dysgu sut i drefnu a defnyddio data


YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

Tymor y Gwanwyn 2022 – Dosbarth Bl 2

# Bant â ni i gynllunio!

Creu band yn y dosbarth! Miguel

Dysgu canu mwy o ganeuon! Harvey




Dysgu enwau yr offerynnau. Gwen

Dysgu sut i ganu offeryn! Darcey

Dysgu am fandiau Cymraeg. Phoebe

Dysgu am yr Eisteddfod. Rebecca